

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Crynodeb Ymchwil Tai

Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu deddfwriaeth ar ddigartrefedd

Comisiynwyd HACAS Chapman Hendy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn gweithredu deddfwriaeth ar ddigartrefedd. Roedd yr adolygiad yn cynnwys pob agwedd o'r dyletswydd statudol yn Neddf Tai 1996, fel y'i newidiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002 a deddfwriaeth eilaidd a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Amcanion yr adolygiad oedd:

- sefydlu sut mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r gyfraith ar hyn o bryd a sut mae hyn yn cymharu gyda'u polisiau a gweithdrefnau, a gyda goblygiadau statudol;
- dynodi'r prif resymau pam na weithredir y gyfraith fel y'i bwriadwyd;
- dynodi unrhyw grwpiau sy'n cael anhawster neilltuol wrth gael eu hawliau yng nghyswllt gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol;
- cynghori sut y dylid newid cyfarwyddyd statudol i egluro a chynorthwyo gweithrediad cywir y gyfraith;
- gwneud argymhellion am unrhyw weithredu arall a fyddai'n helpu i sicrhau y gweithredir y gyfraith fel y'i bwriadwyd;
- dynodi arfer da presennol gan awdurdodau lleol Cymru; a
- canfod barn asiantaethau budd-ddalwyr ac adolygu unrhyw dystiolaeth o farn ymgeiswyr am gymorth dan y ddeddfwriaeth digartrefedd.

Prif ganfyddiadau'r adolygiad yw:

- Cafodd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd eu croesawu'n gyffredinol gan bob sefydliad ac mae meysydd sylweddol o arfer da, prosiectau blaengar ac effeithlon ar waith i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Nid yw'r rhain ar gael yn unffurf i bobl ddigartref ledled Cymru;
- Dengys y dadansoddiad ystadegol o ddigartrefedd fod lefelau cynyddol o ddigartrefedd, yn arbennig yn y categorïau angen blaenoriaeth newydd, sy'n doddi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyd-destun gostyngiad yn y stoc tai cymdeithasol;
- Mae angen dynesiadau cydlynus sy'n doddi polisiâu digartrefedd mewn cyd-destun strategol ehangach. Mae digartrefedd yn broblem sydd angen ymateb aml-asiantaeth ar lefel genedlaethol a hefyd lefel leol;
- Cydnabu nifer o awdurdodau lleol nad yw ansawdd ac argaeledd y cyngor a roddant yn ddigonol i hysbysu ymholwyr am bob opsiwn tai posibl ac nid yw'n ateb yn llawn ofynion cyfreithiol Deddf Digartrefedd 2002 i roi lefel uwch o gyngor a chymorth i bersonau nad oes unrhyw ddyletswydd i sicrhau llety iddynt;
- Mae'r ymchwil a gynhaliwyd gan Shelter Cymru i gynhyrchu eu cyhoeddiad Cyswllt Cyntaf yn dangos y gall cyfuniad o wasanaethau derbynfa gwael a safon gwael o gyngor a roddir gan awdurdod arwain at wadu cyfle i bobl i gyrchu'r cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Dengys canfyddiadau'r adolygiad fod gan bobl ddigartref wahanol brofiadau o gyflwyniad o broses cyflwyniad ac asesu digartrefedd. Mae hyn yn amrywio yn ôl lleoliad, natur y grwp cleient y maent yn disgyn iddo, a'r penderfyniad terfynol;
- Mewn rhai achosion nid yw awdurdodau lleol yn medru ateb y gofyniad i gwblhau ymholiadau o fewn 33 diwrnod. Mae pob awdurdod lleol yn cydymffurfio gyda'r gofyniad i ddarparu llythyr hysbysiad Adran 184, er fod cwmpas i roi esboniad llawnach o'r rhesymau mewn rhai achosion;
- Ni all rhai awdurdodau gyflawni eu dyletswydd i unigolion neu aelwydydd oherwydd nad oes unrhyw lety addas ar gael. Mae prinder llety dros dro mewn rhai ardaloedd ac ar gyfer grwpiau cleient penodol e.e. cyn-droseddwy'r neu bobl sy'n gaeth i sylweddau neu alcohol;
- Mae defnydd cynyddol o lety Gwely a Brecwast, sy'n ffurf anaddas o lety ar gyfer grwpiau digartref bregus. Mae cynnydd yn y defnydd o leoliadau allan-o'r-bwreistref, gyda phroblemau dilynol pobl yn colli cysylltiad gyda rhwydweithiau cefnogaeth a gwasanaethau cefnogaeth lleol;
- Mae angen gwella cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol ac LCC i fynd i'r afael â phryder awdurdodau fod LCC yn defnyddio polisiâu eithriad i gyfyngu nifer y bobl ddigartref a gartrefir yn barhaol;
- Mae defnydd polisiâu eithriad gan rai awdurdodau lleol i atal aelwydydd digartref rhag cael eu cartrefu'n barhaol o fewn eu stoc eu hunain yn achos consyrn;
- Mae awdurdodau'n cael problemau sylweddol wrth drefnu llety addas dros dro a chanfod llety parhaol a chefnogaeth ar gyfer rhai 16 a 17 mlwydd oed;
- Mae tystiolaeth nad yw awdurdodau lleol yn dilyn y Côt Arweiniad wrth asesu pobl sy'n fregus oherwydd trais yn y cartref a chyn-droseddwy'r. Mae consyrn neilltuol fod awdurdodau lleol yn gosod cyfyngiadau amser

mymrwyl ar gyfer i gyn-droseddwr a chyn-beronél gwasanaethau arfog wneud cais fel bod yn ddigartref;

- Gall fod anghysondeb dynesiad rhwng awdurdodau lleol wrth asesu rhesymau eraill dros fregusrwydd a digartrefedd bwriadol oherwydd y caiff pob achos ei asesu ar ei deilyngdod.

ARGYMHELLION

Datblygwyd yr argymhellion yng nghyd-destun nifer o ddatblygiadau polisi cyfredol, sy'n ymestyn tu hwnt i ddigartrefedd. Caiff argymhellion eu gosod ar gyfer y Cynulliad, ei bartneriaid, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Caiff y pynciau ar gyfer ymchwil pellach eu nodi ar y diwedd.

Argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dylai'r Cynulliad:

- Ddatblygu cysylltiadau rhwng y Strategaeth Digartrefedd Genedlaethol a strategaethau eraill y Cynulliad, e.e. Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Cymuned a Strategaethau Plant a Phobl Ifanc, fel y bydd gan atal a rheoli digartrefedd broffil a phwyslais uwch o fewn y Cynulliad;
- Adolygu'r Cod Arweiniad i roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r adolygiad hwn;
- Adolygu'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd gan roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r adolygiad hwn;
- Adolygu'r ffordd y medrir cynnwys y maes tai, gadael cartref, ac addysg cyflogaeth yng nghwricwlwm ysgolion uwchradd ac yng ngwaith y gwasanaeth iechyd;
- Cydnabod fod darparu dynesiad sy'n canoli ar y person (yn hytrach nag ar y gwasanaeth) ar

gyfer y pobl sydd wedi'u niweidio mwyaf a mwyaf anodd yn debygol o fod yn ddrud o ran amser ac adnoddau;

- Bod yn ymwybodol o'r goblygiadau tymor hwy ar gyfer diffyg twf yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tai cymdeithasol yn ystod y cyfnod 2003-2006, yn neilltuoel mewn ardaloedd lle mae dewis tai yn cyfyngedig. Mae stoc tai cymdeithasol ledled Cymru yn gostwng gyda llai o gartrefi yn cael eu hadeiladu gan gymdeithasau tai nag o gartrefi cyngor a chymdeithasau tai a gaiff eu gwerthu drwy'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael;
- Dyrannu adnoddau ychwanegol a neilltuwyd ar gyfer digartrefedd, gan gynnwys atal digartrefedd, fel bod ansawdd y gwasanaethau, yn cynnwys gwasanaethau cefnogaeth, a natur y llety yn ateb anghenion y rhai a ddieithriwyd yn gymdeithasol yn y modd gorau;
- Darparu adnoddau ar gyfer llety ychwanegol dros dro ac annog cynlluniau megis cynlluniau lesu LCC/sector preifat sy'n lleihau'r defnydd o wely a brecwast;
- Asesu os yw'n bosibl ymestyn cyfnod y cyllid a ddarperir ar gyfer y sector dim-am-elw (gwirfoddol) fel nad yw cyfyngiadau cyllid tymor-byr yn amharu ar wasanaethau;
- Asesu'r manteision a'r anawsterau yn gysylltiedig gyda chynlluniau bond a chynlluniau eraill megis taliadau arian i landlordiaid ac, yn amodol ar y canlyniad, ddarparu adnoddau ar gyfer cynlluniau bond a/neu dewisiadau eraill ym mhob ardal awdurdod lleol;
- Cefnogi cynlluniau awdurdodau lleol i annog landlordiaid sector preifat i ddarparu llety ar gyfer aelwydydd digartref, gan gydnabod cyfyngiadau'r sector preifat i gyflawni'r swyddogaeth hon;

- Gweithio gyda chymdeithasau trosglwyddo i sicrhau fod cartrefi digonol ar gael ar ôl trosglwyddo i aelwydydd digartref;
- Adolygu casglu ystadegau monitro, esbonio perthnasedd yr ystadegau a gasglwyd i awdurdodau lleol, a chyhoeddi cyfarwyddyd pellach i gynorthwyo cysondeb dychweliadau. Dylai'r ystadegau ddal gwybodaeth ar atal digartrefedd, efallai drwy wahaniaethu rhwng ymholiadau, cyflwyniadau ffurfiol a derbyniadau;
- Sicrhau fod polisi derbyn/eithriad digartrefedd cenedlaethol cyson, nid yn unig yng nghyswllt darpariaeth awdurdod lleol, ond hefyd yng nghyswllt darparwyr tai cymdeithasol eraill;
- Gweithredu yng nghyswllt awdurdodau cyndyn, dan ysgogiad dychweliadau ystadegol a chanlyniadau arolygiadau'r Comisiwn Archwilio, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael ar gyfer ymyriad dan brotocolau a gytunwyd. Bydd hyn yn cynnwys ailgyhoeddi cyfarwyddyd am rôl aelodau mewn gwneud penderfyniadau am osodiadau;
- Cyhoeddi nodiadau cyngor rheolaidd ar newidiadau deddfwriaethol, canlyniadau dymunol, a dulliau arfer gorau ar gyfer cyflawni canlyniadau i awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol, a darparwyr tai a chefnogaeth eraill;
- Trefnu fforwm rheolaidd yn cynnwys swyddogion y Cynulliad ac ymarferwyr digartrefedd o bob rhan o Gymru, fel y medrir trafod materion o gonsyrn, codi problemau, a rhannu arfer effeithlon;
- Comisiynu hyfforddi staff awdurdodau lleol, ac eraill, ar agweddau penodol o ddigartrefedd, megis gweithio gyda menywod sydd â phrofiad o drais domestig, fel fod gan bob awdurdod a sefydliad perthnasol yng Nghymru ddynesiad cyson;

- Gwella casglu a lledaenu gwybodaeth gwerthusiad prosiect ac arfer da yn deillio o brosiectau Adran 180, drwy gronfa ddata ar wefan y Cynulliad ac efallai raglen o seminarau.

Argymhellion ar gyfer y Cynulliad a'i bartneriaid

Dylai'r Cynulliad:

- Weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu targed addas ar gyfer atal digartrefedd i'w gynnwys yn y gyfres nesaf o Gytundebau Polisi. Medrai targed o'r fath ganolbwyntio ar ostyngiad digartrefedd yn seiliedig ar y prif resymau dros ddigartrefedd mewn unrhyw un ardal. Medrai'r diffiniad o atal digartrefedd fod yr un a ddefnyddir gan Swyddfa'r Dirprwy Prif Weinidog sef: 'activities that enable a household to remain in their current home, where appropriate, or that provide options to enable a planned and timely move and help to sustain independent living';
- Adolygu dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer digartrefedd i ystyried cynnwys, er enghraifft, fesur o lefel yr ataliaeth a gyflawnir. Medrai hyn fod y gyfran o aelwydydd sy'n cyflwyno fel bod yn ddigartref lle mae'r awdurdod wedi ymyrryd i atal digartrefedd rhag digwydd. Dylai'r Cynulliad sicrhau fod hyn yn disgyn o fewn cwmpas adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru;
- Gweithio gyda Syniad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau y caiff atal a mynd i'r afael â nodweddion digartrefedd yn nulliau arfaethedig Cynllun Rhagoriaeth Cymru ar gyfer dynodi a lledaenu arfer da profedig ac arfer blaengar a newydd, ac y caiff digartrefedd ei gydnabod fel thema ynddo ei hunan ;

- Gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu briffiad yn ymgorffori'r negeseuon pwysicaf o'r Cod Arweiniad a'r Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd ar gyfer aelodau;
- Gydag ymgyfraniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, datblygu protocolau ar gyfer enwebiadau sengl gorfodol o bobl ddigartref i LCC ac ymgorffori cyfeiriad at hyn a'r angen i LCC weithio i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn y Côd Rheoleidiol ar gyfer Cymdeithasau Tai;
- Gydag ymgyfraniad y Gwasanaeth Prawf, datblygu protocolau model ar gyfer trefniadau rhyng-awdurdod ar gyfer troseddwr Atodlen 1;
- Hwyluso yn uniongyrchol, neu drwy asiantaeth arall, megis Shelter Cymru, ddatblygu gwefan Gymreig yn cynnwys cronfa ddata o gyfarwyddyd a dogfenwaith arfer da. Medrai hyn fod yn bennaf ar ffurf cysylltiadau i ffynonellau presennol o arfer da;
- Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl ddigartref wrth fonitro ac adrodd ar gyflwyniad gwasanaeth awdurdodau lleol.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol Yn gyffredinol:

Dylai awdurdodau lleol:

- Weithredu yr argymhellion yng nghyhoeddiad Shelter Cymru Cyswllt Cyntaf, a dilyn Map Llwybr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Gwella a gynhwysir yn yr adroddiad.

Cyngor/ataliaeth

Dylai awdurdodau lleol

- Fel rhan o ddatblygiad, gweithrediad ac adolygiad eu strategaethau digartrefedd:

- cynnal archwiliadau o ddarpariaeth cyngor tai yn eu hardaloedd;
- nodi gweithredu i lenwi'r bylchau a ddynodwyd;
- sicrhau y cyflenwir gofynion Deddf Cysylltiadau Hil (Newidiad) 2000 a chynllun cydraddoldeb yr awdurdod ei hunan;
- ystyried os yw tasgau rheolaeth tai craidd e.e. casglu rhent, rheolaeth tenantiaeth, atgyweiriadau ac ati yn cyfrannu at neu'n gweithio'n erbyn atal digartrefedd;
- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau rheolaeth tai er mwyn cynorthwyo atal digartrefedd;
- dynodi lle medrai cysylltu cefnogaeth arnawf gyda digartrefedd mynych atal digartrefedd pellach, a defnyddio cyfle Cefnogi Pobl i roi cefnogaeth o'r fath yn ei le;
- sicrhau y defnyddir dulliau Cynllunio Gweithredol Cefnogi Pobl i drafod anghenion cefnogaeth pobl ddigartref;

- Datblygu dynesiadau at weithio gyda'r sector preifat, yn cynnwys defnydd taliadau budd-dal tai arbennig, i gynnal tenantiaethau;
- Monitro effeithiau polisïau eithrio a thenantiaethau cyflwyniadol ar ddigartrefedd lleol;
- Sicrhau fod y cyngor tai a roddwyd yn ateb gofynion Deddf Digartrefedd 2002 h.y. wedi ei dargedu at anghenion penodol yr unigolyn yn dilyn asesiad o'r anghenion hynny;
- Cefnogi darpariaeth cyngor tai annibynnol i gynorthwyo gydag atal digartrefedd, a rhoi cymorth i sefydliadau yn profi ac yn herio penderfyniadau a wnaed gan yr awdurdod lleol ar achosion unigol o ddigartrefedd;
- Gweithio tuag at Nod Ansawdd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar gyfer eu gwasanaeth cyngor tai;
- Rhoi cyhoeddusrwydd i wasanaethau cyngor tai ar gyfer pob asiantaeth, ynghyd â mecanweithiau cyfeirio i hyrwyddo atal digartrefedd;

- Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd cyngor tai wrth atal digartrefedd gyda systemau cofnodi fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddynodi achosion lle cafodd digartrefedd ei atal;
- Sicrhau cyhoeddusrwydd i wasanaethau cyngor tai;
- Cymryd camau ymarferol i sicrhau y caiff opsiynau gadael cartref a llety eu cynnwys fel rhan o addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion a/neu eu trafod mewn clybiau a chyfleusterau ieuencid e.e. ymgorffori 'HouseMate' a deunyddiau addysgol arall a gynhyrchwyd gan Shelter Cymru, fel rhan o'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol;
- Ymchwilio'n llawn rôl cyfryngu wrth atal digartrefedd a chefnogi datblygiad gwasanaethau cyfryngu lleol.

Cyflwyniad/asesu/gwneud penderfyniadau/cyfeirio

Dylai awdurdodau lleol:

- Ddynodi cyllideb hyfforddiant ar gyfer staff digartrefedd a sicrhau fod ganddynt fynediad digonol i hyfforddiant, yn cynnwys ar gyfraith achos berthnasol;
- Ystyried trefniadau rhyng-awdurdod ar gyfer darparu gwasanaethau allan-o-oriau;
- Sicrhau fod cyfleusterau derbynfa ar gyfer ymgeiswyr yn gyfeillgar i'r defnyddiwr, mewn lleoliadau rhwydd eu cyrraedd, ac y caiff pob ymgeisydd eu trafod mewn modd sensitif a gyda phreifatrwydd addas;
- Darparu canllawiau hylaw i'r deddfwriaeth ar gyfer asiantaethau partner a'r cyhoedd;
- Dilyn y Cod Arweiniad pan yn derbyn ceisiadau gan gyn-droseddwyr ac ymatal rhag gosod amserlenni mympwyol ar gyfer derbyn ymgeiswyr;

- Sicrhau fod aelodau etholedig yn perfformio rôl addas, e.e. cydymffurfio ag egwyddorion strategol a gytunwyd a pheidio ymwneud ag achosion unigol;
- Sicrhau fod pob llythyr Adran 184 yn cynnwys rhesymau llawn a chdir dros y penderfyniad a wnaed a'u bod wedi eu hysgrifennu mewn iaith syml.

Sicrhau llety dros-dro/parhaol/cefnogaeth briodol a rôl LCC

Dylai awdurdodau lleol:

- Ddatblygu cynlluniau gosodiadau i ragweld faint o lety dros dro a pharhaol sydd ei angen a defnyddio'r wybodaeth hon i gytuno ar dargedau gosodiadau gyda'r adran tai ac LCC;
- Drwy'r strategaeth ddiartrefedd, dynodi diffygion mewn llety dros dro a pharhaol a sicrhau y caiff ymwybyddiaeth o'r diffygion hyn ei fwydo i'r Strategaeth Tai Leol a mecanweithiau cynnig priodol;
- Ystyried rhoi mwy o ddewis i aelwydydd digartref o fewn y polisi gosodiadau;
- Gweithio gyda LCC lleol i ddatblygu trefniadau enwebu a mynediad digonol i lety dros-dro a pharhaol ar gyfer pobl ddiartref;
- Defnyddio cynlluniau bond, neu gynlluniau eraill, i wella mynediad i'r sector rhent preifat;
- Cynyddu defnydd o daliadau arbennig tai i alluogi mynediad i, a chynnal, tenantiaethau sector rhent preifat;
- Archwilio llety dros dro a gosod isafswm safonau ar gyfer ei ansawdd;
- Cynnal cyswllt gydag aelwydydd a ddodir allan o'r bwrdeistref a chynghori'r awdurdod allanol am y lleoliad;
- Dynodi drwy'r strategaethau digartref os, a pha mor aml, y maent wedi methu cyflawni

eu dyletswyddau digartrefedd statudol oherwydd diffyg llety dros dro a/neu barhaol addas;

- Bod yn ymwybodol o anghenion penodol grwpiau lleiafrif ethnig e.e. ar gyfer lletya teuluoedd mwy;
- Datblygu gwell cydweithio gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol, gan ddefnyddio arweiniad arfer gorau.

Cyllid/adnoddau

Dylai awdurdodau lleol:

- Adolygu adnoddau ac addasu i'r newid mewn galw am wasanaethau er mwyn atal a mynd i'r afael â digartrefedd;
- Asesu'r staffio sydd ei angen i ddatblygu gwasanaethau ataliol, yn cynnwys cyfryngu, gweithio gyda'r sector preifat ac asiantaethau gwirfoddol.

Targedau/ystadegau a monitro

Dylai awdurdodau lleol:

- Fod yn gyson wrth gofnodi gwybodaeth ystadegol, o fewn yr awdurdod a hefyd gydag awdurdodau eraill, drwy sicrhau y caiff diffiniadau a nodir gan y Cynulliad eu mabwysiadu ac y cedwir atynt

Perchnogaeth gorfforaethol ac ymgyfraniad defnyddwyr

Dylai awdurdodau lleol:

- Weithio i godi proffil digartrefedd ar draws yr awdurdod, yn cynnwys gydag aelodau etholedig;
- Sicrhau fod strategaethau digartrefedd yn bwydo i gynlluniau a strategaethau lefel uwch, yn cynnwys y Strategaeth Tai Leol a'r Cynllun Cymunedol, fel bod perchnogaeth gorfforaethol ar ddigartrefedd;

- Dynodi a chysoni agendâu a ystyrir fel rhai a fedrai fod yn gwrthdaro, e.e. medrir ystyried bod ailgartrefu cyn-droseddwy yn gwrthdaro gyda'r polisi diogelwch cymunedol;
- Mewn cysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth, datblygu a sicrhau cyhoeddusrwydd i safonau gwasanaeth clir ar gyfer digartrefedd.

Argymhellion ar gyfer asiantaethau eraill

Dylai LCC:

- Gydweithredu gyda awdurdodau partner i ddatblygu a chyflwyno eu strategaethau digartrefedd;
- Ystyried secondiadau staff rhyngddynt eu hunain ac awdurdodau lleol i gynorthwyo cydddealltwriaeth ac i hyrwyddo rôl LCC fel darparwyr cartrefi i bobl ddigartref;
- Sefydlu panel ar y cyd o staff awdurdodau lleol ac LCC i adolygu polisïau eithrio sy'n effeithio ar ymgeiswyr digartref;
- Cytuno ar dargedau gosodiadau ar gyfer ailgartrefu aelwydydd digartref gydag awdurdodau partner;
- Datblygu a chytuno ar drefniadau enwebu digonol a mynediad i lety dros dro a pharhaol ar gyfer pobl ddigartref

Dylai gwasanaethau carchar/prawf:

- Gydweithredu gydag awdurdodau partner i ddatblygu a chyflwyno eu strategaethau digartrefedd;
- Darparu cyngor tai ar gyfer pob carcharor ymhell cyn eu rhyddhau o'r carchar;
- Hyfforddi staff carchar/prawf wrth ddelio gyda budd-dal tai a chydlynu gyda landlordiaid. (Medrid darparu hyn drwy weithio partneriaeth fel yn achos Wrecsam);
- Datblygu protocolau gydag adrannau digartref ac asiantaethau gwirfoddol priodol i alluogi ymateb effeithlon ac amserol i anghenion tai unigolion a gaiff eu rhyddhau o'r carchar.

Dylai sefydliadau gwirfoddol:

- Gydweithredu gydag awdurdodau partner i ddatblygu a chyflwyno eu strategaethau ar ddiartrefedd;
- Ymestyn cydgynlluniau hyfforddiant gydag awdurdodau lleol i ddiweddarau staff ar ddeddfwriaeth ac arweiniad;
- Dynodi rolau a chyfrifoldebau gyda pharch at awdurdodau lleol, gan ddrafftio protocolau i gefnogi camau gweithredu a pherthynas waith.

Dylai grwpiau iechyd lleol a sefydliadau iechyd perthnasol:

- Gydweithredu gydag awdurdodau partner i ddatblygu a chyflwyno eu strategaethau ar ddiartrefedd;
- Datblygu protocolau gydag awdurdodau lleol, e.e. ar gyfer rhyddhau o ysbyty, amserlenni ar gyfer darparu gwybodaeth feddygol, ac ati;

- Sicrhau mynediad digonol i wasanaethau iechyd ar gyfer y rhai sy'n ddiartref neu'n cysgu'n ddiigysgod.

Ymchwil pellach

Dynododd yr adolygiad yr angen am ymchwil pellach yn y meysydd hyn:

- Os yw lletya cyn-droseddwr fel categori angen blaenoriaeth yn gostwng cyfradd aildroseddu;
- Sut ac i ba raddau y mae gwaith ataliol ar ddiartrefedd yn arbed adnoddau cyhoeddus yn y tymor hir;
- Astudiaethau achos i ddadansoddi'r rhesymau dros yr amrywiad eang mewn cyfraddau cyflwyniadau a derbyniadau pe byddai dadansoddiad ystadegol pellach yn cadarnhau fod hyn yn ystyriaeth;
- Dadansoddiad o anawsterau penodol a geir wrth ddelio gyda digartrefedd gwledig, yn arbennig yng nghyswllt darparu gwasanaethau hygrych.

Mae'r adroddiad **Adolygiad o'r Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Gweithredu Deddfwriaeth ar Ddiartrefedd** a chopiau pellach o'r crynodeb hwn ar gael oddi wrth:

Sarah Ballard

Y Gyfarwyddiaeth Dai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: (029) 2082 3353

E-bost: Sarah.Ballard@Wales.gsi.gov.uk

Gwefan: <http://www.tai.cymru.gov.uk>